

Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C
18 Ebrill 2013, S4C, Llanisien, Caerdydd a S4C Caernarfon

Cyfarfod Rhif 365

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)	
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)	
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)	
	Dyfrig Jones	(Aelod o'r Awdurdod)	(Eitem 4 ymlaen)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)	
	Glenda Jones	(Aelod o'r Awdurdod)	
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)	
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)	
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)	
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)	
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)	
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)	
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)	
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)	
	Huw Marshall	(Rheolwr Digidol)	(Eitem 5 yn unig)
	Carys Evans	(Pennaeth Ymchwil)	(Eitem 7 yn unig)
	Sarah-Jane Pritchard	(Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)	
Ymddiheuriadau:	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)	

Sylwadau agoriadol

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth KM.

1. Datganiad o ddiddordeb

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Cofnodion cyfarfod 364 (14 Mawrth 2013) a materion yn codi

2.1 Cofnodion cyfarfod 364

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod 364.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

2.2 Materion yn codi

2.2.1 Nodwyd y canlynol:

2.2.2 **[Crynodeb:** Trafodwyd sut i gyflwyno gwybodaeth am gyfarfodydd yr Awdurdod.]

2.2.3 Cyfarfod â'r Gweinidog Treftadaeth

Nodwyd y bydd y Cadeirydd yn cwrdd â'r Gweinidog Treftadaeth newydd, John Griffiths, ym mis Mai.

2.2.4 Adolygiad o berfformiad rhaglenni'r BBC yn 2012 o dan y Bartneriaeth Strategol

Nodwyd bod yr adolygiad o berfformiad rhaglenni'r BBC yn 2012 wedi ei anfon at David Liddiment, Cadeirydd Pwyllgor Cynulleidfa a Pherfformiad, Ymddiriedolaeth y BBC. Awgrymwyd y dylid trefnu cyfarfod gyda David Liddiment i drafod asesu perfformiad darpariaeth y BBC o dan y Bartneriaeth Strategol yn y dyfodol.

2.2.5 Mesuriadau Perfformiad

[**Crynodeb:** Rhoddodd PW ddiweddariad ar y trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth y BBC.]

2.2.6 Cyllid DCMS

Eglurodd IHJ fod trafodaethau gyda swyddogion DCMS yn parhau er mwyn cadarnhau cyfnod adrodd ariannol S4C. Roedd y swyddogion yn cymryd yn ganiataol y byddent yn adrodd ar gyfnod 15 mis hyd at ddiwedd mis Mawrth 2014 yn hytrach na blwyddyn galendr 2013.

2.2.7 Adroddiad Fegan

Nodwyd bod yr aelodau wedi derbyn copi o brif gasgliadau adroddiad Fegan. Roedd y swyddogion wedi bod yn gweithio gyda TAC a byddai diweddariad ar faterion oedd yn deillio o argymhellion yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf.

2.2.8 Ystyried Anghenion Gwybodaeth yr Awdurdod

Cafwyd trafodaeth am anghenion gwybodaeth yr Awdurdod. Nodwyd yr angen i gasglu gwybodaeth ar draws y flwyddyn ar gyfer asesu rhaglenni'r BBC. Dylai hyn fod yn eitem reolaidd ar agenda'r Pwyllgor Cynnwys. Roedd rhai aelodau am weld ystyriaeth barhaol o werth am arian cyfresi unigol yn cael ei chyflwyno. Cytunwyd i drafod hyn ymhellach yn y sesiwn benodol ar "Werth" yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

Cyfeiriwyd at bwysau ar swyddogion i ddarparu adroddiadau ar gyfer bob cyfarfod yr Awdurdod ond nodwyd hefyd angen yr Awdurdod i dderbyn adroddiadau rheolaidd cymwys. Roedd awydd i adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys gynnwys gwybodaeth sydd yn caniatáu cymharu rhaglenni a genres a'r buddsoddiad cymharol a wneir ym mhob un. Nodwyd mai monitro allbwn S4C yw prif gyfrifoldeb y Pwyllgor Cynnwys.

Penderfynwyd y byddai'r Tîm Rheoli a'r Ysgrifennydd yn ystyried yr adroddiadau misol a dderbynnir gan yr Awdurdod a'r drefn o baratoi adroddiadau i sicrhau bod y wybodaeth briodol yn cael ei pharatoi i'r Awdurdod heb ychwanegu yn ddiangen at bwysau gwaith swyddogion.

3. **Adroddiad y Cadeirydd**

Nodwyd Adroddiad y Cadeirydd.

4. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

4.1 Cyflwynodd IHJ ei adroddiad ysgrifenedig.

4.2 **DCMS – diweddariad**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd IHJ ddiweddariad ar y sefyllfa ariannol gyda'r DCMS. Roeddynt wedi cadarnhau gostyngiadau pellach i'w cyfraniad i S4C hyd 2014-15 a chynhelir Adolygiad Gwariant ar gyfer 2015-16 ym mis Mehefin.]

4.3 **iPlayer – diweddariad**

Cyflwynwyd yr amserlen arfaethedig a nodwyd y byddai cynnwys S4C ar gael ar fwyafrif y platfformau ymhen tri mis o'r lawns. Bydd swyddogion yn parhau i drafod cymalau ac amserlen presenoldeb S4C ar iPlayer gyda swyddogion y BBC.

4.4 **Masnachol**

Cyflwynodd EM ddiweddariad ar weithgareddau Grŵp Masnachol S4C. Croesawyd y diweddariad gan yr Awdurdod a chyfeiriwyd at y gwaith sylweddol y mae swyddogion yn ei wneud ar y prosiectau masnachol. Bydd y Pennaeth Datblygu Masnachol yn gwneud cyflwyniad ar weithgareddau a'r strategaeth fasnachol yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod.

4.5 **Ariannol**

[**Crynodeb:** Trafodwyd y dulliau o ddelio ag unrhyw arbedion o fewn y gyllideb Cynnwys. O hyn allan penderfynwyd y dylid cyflwyno argymhellion i'r Awdurdod i'w cymeradwyo.]

4.6 **Bwrdd Partneriaeth ar y cyd – BBC/S4C – diweddariad**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd EM ddiweddariad o waith y Bwrdd Partneriaeth ar y cyd gan egluro nad oedd gofyn am benderfyniadau yn y cyfarfod hwn. Cyfeiriwyd at yr amserlen a awgrymwyd gan y BBC a nodwyd y bydd angen i'r Awdurdod ystyried y prosiect cyd-leoli ar yr un pryd a'r prosiect adleoli.]

5. **Cyflwyniad Strategaeth Ddigidol S4C**

5.1 Cyflwynodd HM Strategaeth Ddigidol S4C sydd yn gynllun ar gyfer denu gwylwyr at gynnwys S4C dros lwyfannau a dyfeisiau gwahanol.

5.2 Croesawyd y cyflwyniad a'r strategaeth ddigidol gan yr Awdurdod. Cafwyd trafodaeth am wasanaeth Clic. Er mwyn gwneud brand S4C mor weladwy â phosib, bydd pob ffordd o wyllo cynnwys S4C yn dod o dan frand S4C yn hytrach na brand Clic yn y dyfodol.

[**Crynodeb:** Trafodwyd datblygiad Apps S4C a'r canllaw ar gyfer ymestyn i lwyfannau newydd.]

5.3 [**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at gynlluniau i ddiweddarau tudalen Hafan S4C a'r awydd i gynnwys ffrydiau gan ddarparwyr eraill.]

5.4 Trafodwyd y maes plant a gwasanaeth HWB. Roedd swyddogion yn trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru sut gallai S4C a'r Llywodraeth gyd-weithio i gynyddu'r ddarpariaeth o ddeunydd addysgol Cymraeg.

5.5 Diolchwyd i HM ac roedd yr Awdurdod yn edrych ymlaen at weld y gwaith yn dwyn ffrwyth.

6. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig gan gyfeirio at Ddrama, Adloniant a Cherdd yn benodol.]

7. **Cyflwyniad Ymchwil Chwarter Cyntaf 2013 ac Adroddiad Ymchwil Misol**

7.1 [**Crynodeb:** Rhoddodd CEv gyflwyniad ar ganfyddiadau ymchwil Chwarter Cyntaf 2013. Cafwyd trafodaeth am y mesuryddion a ddefnyddir i asesu Cyrrhaeddiad ac Effaith (Impact) S4C.]

7.2 Nodwyd yr Adroddiad Ymchwil.

8. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

8.1 Cyflwynodd GLL ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriodd at y pynciau isod:

8.2 Rhoddodd GLL ddiweddariad am yr ymgyrchoedd hyrwyddo. Roedd yr Adran Hyrwyddo wedi ystyried y ffyrdd y mae gwylwyr yn derbyn gwybodaeth am raglenni. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu rhaglenni i bobl ifanc a nodwyd bod 62% o bobl sydd yn defnyddio Trydar yn y Gymraeg yn bobl ifanc o dan ugain.

8.3 Cafwyd trafodaeth am y Nosweithiau Gwylwyr sydd ar y gweill. Byddai'r Adran Hyrwyddo yn cynnal dau ddiwyddiad yng Nghwm Gwendraeth ym mis Mai. Cynhelir Noson Gwylwyr anffurfiol ym Mhontyberem ar 2 Mai, a Noson Gwylwyr o dan y drefn arferol yn Llanddarog ar 14 Mai.

9. **Adroddiad Ariannol**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd yr adroddiad ariannol.]

10. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys**

[**Crynodeb:** Rhoddodd AE adroddiad llafar a chyflwynodd gasgliadau'r Pwyllgor Cynnwys ynglŷn â Chanllawiau Iaith Rhaglenni S4C a Chynllun Rhaglenni'r BBC o dan y Bartneriaeth Strategol ar gyfer 2013 i'r Awdurdod.]

11. **Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd CB adroddiad llafar a chyfeiriodd at benodiad Gwyn Roberts fel cyfarwyddwr anweithredol newydd.]

12. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth a Gwifren Gwylwyr**

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad cwynion.

12.2 Cyflwynwyd adroddiadau'r Wifren.

Nodwyd bod maint y sylwadau a dderbyniwyd gan y Wifren wedi cynyddu yn sylweddol ers iddynt ddechrau cofnodi sylwadau Trydar.

13. **Unrhyw fater arall**

Nodwyd mai hwn oedd cyfarfod olaf Dyfrig Jones fel Aelod o'r Awdurdod. Diolchodd y Cadeirydd i Dyfrig Jones am ei gyfraniad dros y pedair blynedd ddiwethaf, yn enwedig fel Cadeirydd y Fforwm Cyfryngau Newydd.

14. **Pwnc trafod – Ystyried “Gwerth” S4C**

Derbyniwyd nodyn arweiniol am “werth” a “gwerth am arian” S4C. Penderfynwyd y dylid gohirio'r sesiwn drafod ar y pwnc hwn tan y cyfarfod nesaf.

15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 16 Mai 2013 yng Nghaerdydd.